



Ein Cyf : MA/P/LG/0472/19

Mike Hedges AC  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

7 Chwefror 2019

Annwyl Mike,

Diolch yn fawr ichi am eich llythyr ar 10 Ionawr sy'n gofyn imi am fy marn am Fil Amgylchedd drafft Llywodraeth y DU ac am y diweddaraf am gynigion Llywodraeth Cymru o ran llywodraethu amgylcheddol ar ôl i'r DU adael yr UE. Derbyniwch fy ymddiheuriadau am beidio ag ymateb yn gynt. Mae'n gwaith ar sicrhau bod gennym lyfr statud ymarferol ar y diwrnod ymadael wedi cyrraedd pwynt tyngedfennol a dyna'r rheswm am yr oedi.

Rwyf wedi bod yn gofyn o'r dechrau am gael siarad â Llywodraeth y DU am ffyrdd posib o gydweithio i gau unrhyw fylchau allai ymddangos yn y maes llywodraethu amgylcheddol wrth i'r DU adael yr UE. Wrth wneud, rwyf wedi tanlinellu'r sefyllfa wahanol yng Nghymru, gan y gall ein deddfwriaeth olygu bod ein bylchau ni yn y maes llywodraethu amgylcheddol fod yn wahanol i'r rheini yng ngwledydd eraill y DU. Rhaid i unrhyw gynigion ar lefel y DU i gau bylchau llywodraethu amgylcheddol fod yn gydnaws â fframwaith deddfwriaethol Cymru yn ogystal â pharchu'r setliad datganoli.

Gan fod yr amgylchedd yn bwnc datganoledig y mae'r Cynulliad eisoes wedi creu deddfwriaeth arloesol ynddo, mae ein sefyllfa ni'n wahanol iawn i'r hyn sy'n wynebu Llywodraeth y DU o ran ei chyfrifoldebau am Loegr. Gellir darlunio'r gwahaniaeth hwnnw trwy gymharu deddfwriaeth bresennol yr UE a fframwaith deddfwriaethol Cymru.

Mae dwy haen i Gytundebau'r UE. Mae ganddynt gyd-destun cyffredinol i hyrwyddo datblygu cynaliadwy, hynny ym mhob maes polisi ac yna, o fewn hwnnw, saif pedwar egwyddor amgylcheddol yr UE. Yng Nghymru, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi lle canolog a sylfaenol i ddatblygu cynaliadwy. Mae Deddf yr Amgylchedd yn integreiddio'r ffordd rydym yn rheoli ein hadnoddau naturiol o fewn egwyddor datblygu cynaliadwy y Ddeddf Llesiant gan gyflwyno set arall o egwyddorion ar gyfer rheoli adnoddau naturiol Cymru. Mae dwy haen yn bodoli yng Nghymru felly ac yn yr UE. Nid yw'r bensaerniaeth ddeddfwriaeth hon yn bodoli ar lefel y DU nac yn rhannau eraill y DU. Hefyd, yn ogystal â bod yn fwy cydnaws â threfn yr UE, mae'r ffordd rydyn ni'n gwneud pethau yng Nghymru yn fwy cydnaws â'r drefn ryngwladol, yn enwedig amcanion datblygu cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig, y Confensiwn ar Newid Hinsawdd a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol â'i bwyslais ar ecosystemau.

Mae cwmpas ein fframwaith ni yn ehangach ac yn fwy integredig na'r model sy'n cael ei gynnig gan Fil y DU, yn enwedig o gofio bod datblygu cynaliadwy yn ganolog i bob un o'n meysydd polisi ni'n ddiwahân. Yn gefn iddo y mae'r dyletswyddau statudol a roddir ar Weinidogion Cymru a chyrrff cyhoeddus Cymru i weithredu ar y lefel leol a chenedlaethol.

Nid yw'n eglur eto beth mae Llywodraeth y DU yn ei gredu fydd neu na fydd yn cael ei gadw yn ôl o ran yr amgylchedd. Ond fel ag y mae ar hyn o bryd, nid yw'r Bil yn adlewyrchu'r setliad datganoli presennol. Yn hytrach na'i ddrafftio fel ei fod yn gyson â'r setliadau datganoli, lle mae popeth wedi'i ddatganoli heblaw'r materion sydd yn benodol wedi'u cadw yn ôl, mae'r Bil yn ceisio torri allan cymwyseddau datganoledig. Hefyd, mae'r Bil yn canolbwyntio ar rôl Gweinidogion y Goron, sydd wrth gwrs yn gweithredu yng Nghymru. O gofio bod darnau mawr o dir yn cael eu rheoli er enghraifft gan y Weinyddiaeth Amddiffyn, yn ôl y Bil fel ag y mae wedi'i ddrafftio, bydd gofyn i Weinidogion y Goron wrth weithredu yng Nghymru gyflawni'u swyddogaethau yn unol â gofynion y Bil. Byddai hynny er enghraifft yn cwmpasu'r datganiad polisi fel y'i diffinnir gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Gallai hynny greu gwrthdaro os oes deddfwriaeth sydd wedi'i phasio gan y Cynulliad sydd eisoes yn rhoi dyletswydd ar un o'r Gweinidogion hyn. Mae Deddf yr Amgylchedd trwy roi dyletswydd ar Weinidogion y Goron mewn cysylltiad â rheoli'r amgylchedd yng Nghymru (adran 6), yn sicrhau bod deddfwriaeth yng Nghymru'n gydnaws â'r fframwaith deddfwriaethol ehangach. Ceir problemau posib hefyd er enghraifft ynghylch y modd y gallai'r llysoedd ddefnyddio'r egwyddorion fel arfau dehongli wrth benderfynu ar achosion sy'n ymdrin â chyfraith yr amgylchedd.

Mae nifer o gyrff Cymreig yn cyflawni swyddogaethau mewn meysydd sydd wedi'u cadw yn ôl ac felly gallai'r Bil, fel ag y mae ar hyn o bryd, fod yn destun craffu yr OEP newydd, er ei fod, fel ag y mae wedi'i gyfansoddi, yn canolbwyntio ar y bwlch llywodraethu yn Lloegr. Bydd gofyn i unrhyw gorff goruchwyllo amgylcheddol yng Nghymru weithio gyda deddfwriaeth sylfaenol Cymru yn hytrach na thorri ar ei thraws. Hynny yn arbennig o ran y Deddfau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yr Amgylchedd a Chynllunio. Bydd gofyn iddo hefyd ategu'r cyrrff presennol a'u rolau yng Nghymru, a bod yn gydnaws â nhw. Mae'r cyrrff hyn yn wahanol i'r hyn a geir yn rhannau eraill y DU, yn enwedig Cyfoeth Naturiol Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a rôl Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Yn gryno felly, o gofio bod ein man cychwyn yn wahanol iawn, nid yw'r model y mae Llywodraeth y DU wedi'i ddatblygu yn y Bil ar gyfer Lloegr yn fodel ymarferol i Gymru. Fel y saif pethau, nid yw'n gydnaws â'r setliad datganoli na'n deddfwriaeth bresennol.

Rwy'n barod i gydweithio ar lefel y DU i ddelio â'r mater pwysig hwn ac rydyn ni'n parhau i gadw mewn cysylltiad â Llywodraeth y DU.

Yr un pryd, rydyn ni'n gweithio i gyhoeddi fersiwn derfynol ein hymgyngoriad y mis hwn. Gyda'r posibilrwydd ofnadwy o Brexit heb gytundeb fel cwmwl du drosom ni, ein blaenoriaeth bennaf yw sicrhau bod gennym lyfr statud ymarferol fydd yn rhoi sefydlogrwydd ac yn cynnal ein safonau amgylcheddol.

Ar ôl ymadael, bydd ein hegwyddorion (5 ffordd o weithio ac egwyddorion rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy) yn dal i gael eu harfer. Ar ben hynny, bydd ein cyrff atebolrwydd, fel yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus, yn parhau i glywed cwynion y bobl a bydd ein Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn parhau i warchod egwyddorion datblygu cynaliadwy.

Cofion,

A handwritten signature in cursive script that reads "Lesley". The signature is written in a dark grey or black ink on a white background.

**Lesley Griffiths AC/AM**

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig  
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs